**Llywodraeth Cymru**

**Canllawiau ar Fewnforio Gwenyn i Gymru**

**Gorffennaf 2023**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, WG47393, ISBN digidol 978-1-83504-317-2

## Cynnwys

Rhagair ... 3
Trosolwg o reolaethau mewnforio ... 3
Deddfwriaeth ... 4
Mewnforion Gwenyn o Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw ... 4
Mewnforion Gwenyn o wledydd y tu allan i’r UE ... 5
Lleoliadau Rheoli Ffiniau ... 5
Taliadau am wiriadau milfeddygol ... 6
Rheolaethau ar ôl Mewnforio ... 6
Mewnforion o Aelod-wladwriaethau’r UE ... 7
Rheolaethau ar ôl Mewnforio ... 7
Mewnforion o Ogledd Iwerddon ... 8
Gwybodaeth arall ... 8
Atodiad 1 ... 9
Atodiad 2 ... 11
Atodiad 3 ... 13

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, WG47393, ISBN digidol 978-1-83504-317-2

## Rhagair

Lluniwyd y nodyn hwn i ddarparu canllawiau anffurfiol, anstatudol sy'n ceisio egluro'r gofynion sy'n berthnasol i fewnforio gwenyn i Gymru o rai rhannau o Ynysoedd Prydain, o'r UE ac o weddill y byd. Nid yw'n rhoi sylw cynhwysfawr i'r holl amodau a bennwyd mewn deddfwriaeth ac nid oes ganddo rym cyfreithiol. Mae deddfwriaeth debyg ar waith yn Lloegr a'r Alban. Mae trefniadau gwahanol ar waith ar gyfer Gogledd Iwerddon yn unol â Phrotocol Gogledd Iwerddon.

## Trosolwg o reolaethau mewnforio

Nod y ddeddfwriaeth yw atal cyflwyno a lledaeniad plâu a chlefydau gwenyn, yn enwedig chwilen fach y cwch. Os ydych chi'n mewnforio gwenyn, p'un ai ar gyfer eich defnydd eich hun neu i'w gwerthu i eraill, mae'n bwysig eich bod yn cydymffurfio â'r holl amodau mewnforio er mwyn diogelu iechyd gwenyn mêl yn y DU.

Y gofynion allweddol ar gyfer mewnforion o aelod-wladwriaethau'r UE a gweddill y byd yw:
1. Rhaid i chi **hysbysu** am yr holl fewnforion ymlaen llaw drwy'r system IPAFFS;
2. Rhaid i chi sicrhau bod **tystysgrif iechyd** a gafwyd gan yr awdurdod cymwys perthnasol yn cael ei chyflwyno gyda llwythi o aelod-wladwriaethau'r UE a gweddill y byd;
3. Rhaid i fewnforion o wledydd ar wahân i aelod-wladwriaethau'r UE ddod i mewn drwy **bwynt rheoli ffiniau**. Bydd mewnforion o aelod-wladwriaethau'r UE yn cael eu **gwirio yn y cyrchfan** ar sail risg hyd at ddiwedd y tymor cadw gwenyn. Byddwn yn diweddaru'r canllawiau hyn i gynghori ar y sefyllfa o 1 Ionawr 2024 ymlaen;
4. **Ni allwch fewnforio pecynnau o wenyn o unrhyw wlad** ar wahân i Seland Newydd;
5. Rhaid i chi gydymffurfio â'r **rheolaethau ar ôl mewnforio** sy'n berthnasol i lwythi sy'n cael eu mewnforio o bob gwlad.

Yn ogystal, byddem yn eich annog yn gryf i gadw cofnodion o wenynwyr rydych chi wedi gwerthu unrhyw wenyn a fewnforiwyd iddynt. Bydd hyn yn galluogi'r Uned Wenyn Genedlaethol (NBU) i gysylltu â gwenynwyr yn gyflym os deuir o hyd i unrhyw blâu a chlefydau hysbysadwy yn y llwyth a fewnforiwyd.

Nodwch fod rhaid i chi fodloni eich hun bod llwythi'n cael eu mewnforio’n unol â'r holl amodau deddfwriaethol perthnasol. Gall methu â chydymffurfio â'r gofynion sydd yn Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 (fel y'u diwygiwyd) a Gorchymyn Rheoli Clefydau a Phlâu Gwenyn (Cymru) 2006 (fel y'i diwygiwyd) arwain at ddinistrio eich llwyth ac at erlyniad posibl.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau am y gofynion o ran mewnforio gwenyn mêl, cysylltwch â Llywodraeth Cymru, Polisi Iechyd Gwenyn yn GwenynMellach@llyw.cymru neu'r Uned Wenyn Genedlaethol yn nbu@apha.gov.uk.

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, WG47393, ISBN digidol 978-1-83504-317-2

## Deddfwriaeth

Os ydych chi am fewnforio gwenyn i Gymru, rhaid i chi gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ganlynol:

**Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011** (Rheoliadau TARP) sy'n pennu'r rheolaethau sy'n berthnasol i fewnforio *Apis mellifera* (gwenyn mêl) a chacwn (*Bombus* spp) o wledydd eraill. Mae'r rheoliadau hyn wedi'u diweddaru gan fod y DU wedi ymadael â'r UE, felly dylid eu darllen ar y cyd â'r rheoliadau diwygio.

**Gorchymyn Rheoli Clefydau a Phlâu Gwenyn (Cymru) 2006** (y Gorchymyn) a'i ddiwygiadau sy'n pennu'r darpariaethau gorfodi ar gyfer rheolaethau ar ôl mewnforio sy'n berthnasol i unrhyw fewnforion gwenyn a fewnforir o wlad arall.

**Rheoliad y Comisiwn (UE) 206/2010** sy'n rhestru'r gwledydd y gellir mewnforio gwenyn ohonynt (yn amodol ar ofynion sy'n ymwneud â phlâu a chlefydau hysbysadwy – gweler tudalen 5), gofynion tystysgrifau iechyd a'r rheolaethau ar ôl mewnforio. (Deddfwriaeth yr UE a ddargedwir fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Mewnforio a Masnachu Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020.)

**Penderfyniad y Comisiwn 2006/855/EC** sy'n pennu'r gofynion tystysgrifau iechyd a'r gwiriadau ar ôl mewnforio (gwenyn wedi'u pecynnu) ar gyfer gwenyn a fewnforir o Seland Newydd ac yn diwygio'r Atodiadau i Benderfyniad 2003/56/EC.

Mae'r ddeddfwriaeth genedlaethol ar gael yn http://www.legislation.gov.uk/ sy'n cynnwys deddfwriaeth yr UE a ddargedwir hefyd.

## Mewnforion Gwenyn o Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw

Yn unol â'r trefniadau sy'n bodoli eisoes, fe'i hystyrir yn arfer gorau i ddarparu tystysgrifau iechyd wrth symud gwenyn o Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw i Gymru.

Mae'r ardystiad iechyd a ddymunir i'w weld yn Atodiad 1. Gellir cael tystysgrif enghreifftiol gan yr Uned Wenyn Genedlaethol.

Er bod y canllawiau hyn yn canolbwyntio ar fewnforion, dylech nodi y cydnabyddir yn swyddogol bod Ynys Manaw yn rhydd o varroosis. Felly, mae cyflwyno i'r diriogaeth honno wenyn ar unrhyw adeg yn eu cylch bywyd, cychod gwenyn, cychod gwellt neu unrhyw gynhwysydd a ddefnyddir i gartrefu gwenyn sydd wedi'u defnyddio eisoes, wedi'i wahardd oni bai eu bod yn dod o ardal y cydnabyddir yn swyddogol ei bod yn rhydd o varroa. Felly, mae allforio gwenyn i Ynys Manaw o Gymru wedi'i wahardd.

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, WG47393, ISBN digidol 978-1-83504-317-2

## Mewnforion Gwenyn o wledydd y tu allan i'r UE

Dim ond o'r gwledydd hynny a restrir yn Rhan 1 i Atodiad II o Reoliad y Comisiwn (UE) Rhif 206/2010 (cyfraith yr UE a ddargediwr) y caniateir i wenyn ddod i mewn i Gymru. Mae hyn ar yr amod bod clefyd Americanaidd y gwenyn, *Aethina tumida* (Chwilen fach y cwch) a *Tropilaelaps spp* (Gwiddonyn tropilaelaps) wedi'u cadarnhau fel clefydau/plâu hysbysadwy ledled y wlad, y diriogaeth neu'r ardal ddi-glefyd sy'n allforio, a bod yr ardal allforio yn rhydd o'r clefydau/plâu hyn.

Os ydych chi am fewnforio gwenyn o unrhyw un o'r gwledydd a restrir, dylech wirio gyda'r awdurdod perthnasol yn y wlad dan sylw ei bod yn gallu cydymffurfio â'r gofynion mewnforio uchod. Efallai y bydd angen i chi roi manylion rheolaethau'r wlad sy'n allforio ar y clefydau/plâu hyn i'r Uned Wenyn Genedlaethol.

Cyfyngir ar fewnforion gwenyn mêl i lwythi o freninesau gwenyn a gwenyn gweithio yn unig (ac eithrio Seland Newydd). Rhaid i bob brenhines gwenyn gael ei chadw mewn un cawell ac yng nghwmni dim mwy nag 20 o wenyn gweithio. Caniateir pecynnau neu nythfeydd sengl o wenyn cacwn (uchafswm o 200 o oedolion ym mhob cynhwysydd), ar yr amod eu bod yn cael eu bridio o dan amodau a reolir yn amgylcheddol mewn sefydliadau cydnabyddedig.

Rhaid i dystysgrif iechyd wreiddiol (ni dderbynnir llungopïau) sydd wedi'i modelu ar 'Fodel QUE' (gwenyn mêl) neu 'Fodel BEE' (cacwn) gael ei chyflwyno gyda phob llwyth, ac mae ar gael yn [http://www.gov.uk/government/publications/bees-health-certificates](http://www.gov.uk/government/publications/bees-health-certificates). Rhaid i'r dystysgrif iechyd gael ei chyhoeddi heb fod yn fwy na 24 awr cyn i'r awdurdod perthnasol yn y wlad tarddiad anfon y llwyth, ac mae'n ddilys am 10 diwrnod o'r dyddiad cyhoeddi. Mae amodau'r dystysgrif iechyd yn Atodiad 2.

Mae Penderfyniad y Comisiwn 2006/855/EC (cyfraith yr UE a ddargedwir) yn caniatáu mewnforio breninesau gwenyn mêl, gwenyn mêl wedi'u pecynnu (brenhines gwenyn yng nghwmni tua 15,000 o wenyn gweithio) a chacwn i'r DU o Seland Newydd o dan gytundeb milfeddygol dwyochrog. Rhaid i dystysgrif iechyd wreiddiol a fodelwyd ar Atodiad VI o'r Penderfyniad a gyhoeddwyd gan awdurdodau Seland Newydd ddod gyda'r llwythi. Mae'r amodau iechyd yn Atodiad 3 y ddogfen hon.

## Lleoliadau Rheoli Ffiniau

Rhaid i unrhyw wenyn sy'n cael eu mewnforio o wledydd y tu allan i'r UE ddod i mewn drwy leoliad rheoli ffiniau (BCP) cymeradwy.

Rhaid i chi roi o leiaf un diwrnod gwaith o rybudd o ddyddiad cyrraedd disgwyliedig y llwyth i'r swyddfa APHA sy'n gyfrifol am y BCP. Dylid gwneud hyn drwy'r system IPAFFS. Mae gwybodaeth am y system a manylion am sut i gofrestru ar gael yn gov.uk - [https://www.gov.uk/guidance/import-of-products-animals-food-and-feed-system](https://www.gov.uk/guidance/import-of-products-animals-food-and-feed-system). Rhaid cyflwyno Dogfen Mynediad Iechyd Gyffredin (Common Health Entry Document - CHED) gyda rhan 1 wedi'i chwblhau. Copïwch y dogfennau i'r NBU. Nid yw hysbysiadau llafar neu ffôn yn dderbyniol. Mae manylion BCPs a gymeradwywyd

ar gyfer gwenyn yn gov.uk – bydd angen i chi chwilio am gofnod sy'n cynnwys y cod LA-O a gwirio'r golofn sylwadau i weld a yw gwenyn yn cael eu derbyn. https://www.gov.uk/government/publications/uk-border-control-posts-animal-and-animal-product-imports

Noder bod llwythi sy'n cyrraedd drwy airmail yn cael eu hanfon i ddepo Parcelforce yn Coventry ac yna'n cael eu dychwelyd i'r BCP er mwyn i'r gwiriadau milfeddygol angenrheidiol gael eu cynnal. Er mwyn osgoi'r oedi hwn o ran cludiant, dylai llwythi gael eu hanfon drwy gargo gan y byddant yn cael eu cludo'n syth i'r BCP pan fyddant yn cyrraedd y maes awyr.

Ar ôl cyrraedd y BCP, bydd y dystysgrif iechyd wreiddiol yn cael ei chadw a bydd rhan 2 y CHED yn cael ei chwblhau gan y milfeddyg swyddogol yn cadarnhau bod yr holl wiriadau milfeddygol wedi'u cynnal. Yna, bydd y llwyth yn cael ei ryddhau. Dylai copi o'r CHED wedi'i gwblhau fynd gyda'r llwyth i'w gyrchfan.

## Taliadau am wiriadau milfeddygol

Mae costau'r gwiriadau a gynhelir ar fewnforion anifeiliaid byw o drydydd gwledydd yn cael eu hadennill gan y mewnforiwr o dan ddarpariaethau'r rheoliadau rheoli swyddogol. I gael gwybod faint y bydd y gwiriad BCP yn ei gostio, dylech gysylltu â'r BCP perthnasol.

## Rheolaethau ar ôl Mewnforio

Nod y rheolaethau hyn yw lleihau'r risg o gyflwyno a lledaeniad plâu gwenyn egsotig, yn enwedig Chwilod bach y cwch a Gwiddonyn tropilaelaps (sy'n hysbysadwy yn y DU). Rhaid i'r person neu'r busnes a enwir fel y mewnforiwr ar y dystysgrif iechyd:

1. Drosglwyddo'r breninesau i gewyll brenhines newydd cyn iddynt gael eu cyflwyno i unrhyw nythfeydd lleol ar ôl eu derbyn; ac

2. Anfon y cewyll gwreiddiol, gwenyn gweithio a deunydd arall a ddaeth gyda'r breninesau gwenyn o'u gwlad tarddiad i Fera Science Ltd. **o fewn 5 diwrnod i'w derbyn** i'w harchwilio am bresenoldeb Chwilen fach y cwch a'r Gwiddonyn tropilaelaps.

Mae pecynnau gwenyn o Seland Newydd yn destun gwiriad canran (yn dibynnu ar y nifer a fewnforir) yn y wenynfa ar ôl cyrraedd.

Rhaid i chi ddinistrio'r cynhwysydd y cafodd unrhyw nythfa o gacwn a fewnforir ei gludo ynddo a'r holl ddeunydd a ddaeth gyda'r gwenyn naill ai yn ystod oes y nythfa a fewnforir, neu ar ddiwedd ei hoes.

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, WG47393, ISBN digidol 978-1-83504-317-2

## Mewnforion o Aelod-wladwriaethau'r UE

**Tan o leiaf ddiwedd tymor cadw gwenyn 2023 , nid oes angen i fewnforion gwenyn ddod drwy BCP cymeradwy ond rhaid iddynt gydymffurfio â'r rheolau a nodir isod, gan gynnwys rheolaethau ar ôl mewnforio. Mae'r sefyllfa ddiweddaraf ar fasnach gyda'r UE i'w gweld yn y Model Gweithredu Ffiniau.** https://www.gov.uk/government/publications/the-border-operating-model

Gellir mewnforio breninesau gwenyn o unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE gan fod clefyd Americanaidd y gwenyn, Chwilen fach y cwch a Gwiddonyn tropilaelaps i gyd yn hysbysadwy ledled yr UE. Nid yw rhanbarthau Calabria a Sicily yn yr Eidal yn gallu allforio oherwydd mesurau diogelu a osodwyd ar gyfer brigiad o achosion o Chwilen fach y cwch.

Cyn allforio, rhaid i chi gael rhif cyfeirnod unigryw gan APHA (bydd yn cael ei gynhyrchu drwy'r system IPAFFS). Rhaid i'r rhif hwn ymddangos yn y dystysgrif a ddarperir gan y wlad allforio. Mae gwybodaeth am y system a manylion am sut i gofrestru ar gael yn gov.uk - https://www.gov.uk/guidance/import-of-products-animals-food-and-feed-system.

Rhaid i dystysgrif iechyd wreiddiol (ni dderbynnir llungopïau) sydd wedi'i modelu ar 'Fodel QUE' (breninesau gwenyn a breninesau cacwn) neu 'Fodel BEE' (cacwn) gael ei chyflwyno gyda phob llwyth, ac mae ar gael yn http://www.gov.uk/government/publications/bees-health-certificates. Rhaid i'r dystysgrif iechyd gael ei chyhoeddi heb fod yn fwy na 24 awr cyn i'r awdurdod perthnasol yn y wlad tarddiad anfon y llwyth, ac mae'n ddilys am 10 diwrnod o'r dyddiad cyhoeddi. Mae amodau'r dystysgrif iechyd yn Atodiad 2. Rhaid i chi ddarparu hysbysiad o'r llwyth ymlaen llaw drwy IPAFFS drwy gwblhau rhan 1 o CHED.

Bydd gwiriadau seiliedig ar risg yn cael eu cynnal yn y cyrchfan i sicrhau bod y llwyth yn cydymffurfio â'r amodau mewnforio.

## Rheolaethau ar ôl Mewnforio

Nod y rheolaethau hyn yw lleihau'r risg o gyflwyno a lledaeniad plâu gwenyn egsotig, yn enwedig Chwilod bach y cwch a Gwiddonyn tropilaelaps (sy'n hysbysadwy yn y DU). Rhaid i'r person neu'r busnes a enwir fel y mewnforiwr ar y dystysgrif iechyd:

1. Drosglwyddo'r breninesau i gewyll brenhines newydd cyn iddynt gael eu cyflwyno i unrhyw nythfeydd lleol ar ôl eu derbyn; ac

2. Anfon y cewyll gwreiddiol, gwenyn gweithio a deunydd arall a ddaeth gyda'r breninesau gwenyn o'u gwlad tarddiad i Fera Science Ltd. **o fewn 5 diwrnod i'w derbyn** i'w harchwilio am bresenoldeb Chwilen fach y cwch a'r Gwiddonyn tropilaelaps.

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, WG47393, ISBN digidol 978-1-83504-317-2

## Mewnforion o Ogledd Iwerddon

Darperir gwybodaeth am fasnach gyda Gogledd Iwerddon ar wefan gov.uk https://www.gov.uk/government/publications/the-northern-ireland-protocol.

Mae Protocol Gogledd Iwerddon yn sefydlu’r egwyddor o fynediad dilyffethair i fusnesau Gogledd Iwerddon i Brydain Fawr. Gall busnesau Gogledd Iwerddon allforio i Brydain Fawr o dan yr un amodau iechyd gwenyn a oedd ar waith cyn diwedd y cyfnod pontio. Mae hyn yn golygu y gall gwenynwyr yng Ngogledd Iwerddon barhau i allforio pecynnau a nythfeydd i'r DU. Ni fydd gwiriadau ar y ffin ar lwythi a anfonir o Ogledd Iwerddon.

## Gwybodaeth Arall

**Rhagofalon pecynnu**

Wrth anfon gwenyn a deunydd arall i'w harchwilio, defnyddiwch focsys matsis neu gynwysyddion cardbord bach, gan fod gwenyn yn teithio'n dda mewn cynwysyddion o'r fath ac yn cyrraedd mewn cyflwr da. Mae blychau tun, bagiau polythen neu gynwysyddion aerdyn eraill yn achosi i'r sampl chwysu, sy'n gwneud i’r gwenyn ddadelfennu’n gyflym, gan wneud archwiliad yn anodd.

**Gwerthu Gwenyn**

Mae'n arfer da cadw cofnodion o wenynwyr rydych chi wedi gwerthu unrhyw wenyn a fewnforiwyd iddynt. Bydd hyn yn galluogi'r NBU i gysylltu â gwenynwyr yn gyflym os deuir o hyd i unrhyw blâu a chlefydau hysbysadwy yn y llwyth a fewnforiwyd. Gall gwenynwyr sydd wedi'u cofrestru ar gronfa ddata Beebase yr NBU (www.nationalbeeunit.com) gofnodi prynu, gwerthu neu roi gwenyn yn eu cofnodion BeeBase.

Mae ffurflen awgrymedig ar gyfer cadw cofnodion o werthu/prynu gwenyn wedi'i chynnwys hefyd yng nghyhoeddiad arfer gorau'r Cynllun Gwenyn Iach Advice for obtaining honey bees <http://www.nationalbeeunit.com/downloadDocument.cfm?id=532>, sydd ar gael ar dudalen taflenni cynghori BeeBase.

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, WG47393, ISBN digidol 978-1-83504-317-2

## Atodiad 1

Fel arfer gorau, dylai gwenyn mêl a chacwn o Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel:

Naill ai: (a) mae'r gwenyn/cacwn yn dod o ardal nad yw'n destun gorchymyn gwahardd sy'n gysylltiedig ag achos o glefyd Americanaidd y gwenyn (AFB) (mae cyfnod y gwaharddiad wedi parhau am o leiaf 30 diwrnod yn dilyn yr achos diwethaf a gofnodwyd a'r dyddiad mae pob cwch gwenyn o fewn radiws o dri chilomedr wedi'u gwirio gan yr awdurdod cymwys a'r holl gychod gwenyn heintiedig wedi'u llosgi neu eu trin a'u harchwilio i foddhad yr awdurdod cymwys);

Neu (a) mae'r cacwn yn dod o strwythur sydd wedi'i ynysu'n amgylcheddol a gydnabyddir gan yr awdurdod cymwys ac sydd o dan ei oruchwyliaeth sy'n rhydd o glefyd Americanaidd y gwenyn ac a arolygwyd yn syth cyn eu hanfon ac nid yw'r cacwn na'r stoc bridio'n dangos unrhyw arwyddion clinigol nac amheuaeth o glefyd;

A (b) mae'r gwenyn/cacwn yn dod o ardal â radiws o 100 cilometr o leiaf nad yw'n destun unrhyw gyfyngiadau sy'n gysylltiedig ag achos o Chwilen fach y cwch (*Aethina tumida*) neu'r Gwiddonyn tropilaelaps (*Tropilaelaps* spp), neu amheuaeth o achos o'r fath, a lle mae'r plâu hyn yn absennol;

Neu (b) dim ond cewyll o freninesau gwenyn y mae'r llwyth yn ei gynnwys, pob un yn cynnwys un frenhines gydag uchafswm o 20 o wenyn gweithio, ac yn dod o ardal â radiws o 100 cilometr o leiaf nad yw'n destun unrhyw gyfyngiadau sy'n gysylltiedig ag achos o'r Gwiddonyn tropilaelaps (*Tropilaelaps* spp.) ac o sefydliad sy'n bodloni'r holl ofynion canlynol:

> Mae wedi'i leoli o leiaf 30 cilometr o derfynau parth gwarchod â radiws o 20 cilometr o leiaf o amgylch achosion wedi'u cadarnhau o Chwilen fach y cwch, ac
>
> Mae wedi'i leoli y tu allan i barth a gyfyngir gan fesurau amddiffynnol a sefydlwyd gan yr Undeb oherwydd achos o Chwilen fach y cwch, a
>
> Mae wedi'i leoli mewn ardal lle mae gwyliadwriaeth flynyddol i ganfod Chwilen fach y cwch gan yr awdurdod cymwys yn parhau i ddarparu lefel hyder o 95% o leiaf o ran canfod chwilen fach y cwch pe bai o leiaf 2% o'r gwenynfeydd wedi'u heintio, a
>
> Mae'n cael ei arolygu bob mis gan yr awdurdod cymwys gyda chanlyniadau negyddol i ddarparu lefel hyder o 95% o leiaf o ran canfod chwilen fach y cwch pe bai o leiaf 2% o'r cychod gwenyn wedi'u heintio, a
>
> Lle mae pob cawell neu'r llwyth cyfan wedi'u gorchuddio gan rwyll fân â mandyllau heb fod yn fwy na 2 mm yn syth ar ôl yr archwiliad gweledol ar gyfer yr ardystiad iechyd;

Neu (b) mae'r cacwn yn dod o strwythur sydd wedi'i ynysu'n amgylcheddol a gydnabyddir gan yr awdurdod cymwys ac sydd o dan ei oruchwyliaeth sy'n rhydd o Chwilen fach y cwch;

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, WG47393, ISBN digidol 978-1-83504-317-2

Ac (c) mae'r gwenyn/cacwn, ynghyd â'u pecynnau, wedi cael archwiliad gweledol i ganfod achos o Chwilen fach y cwch (*Aethina tumida*) neu eu hwyau a'u larfau, neu blâu eraill, yn enwedig y Gwiddonyn tropilaelaps (*Tropilaelaps* spp.) sy'n effeithio ar wenyn.

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, WG47393, ISBN digidol 978-1-83504-317-2

## Atodiad 2

Rhaid i freninesau gwenyn mêl a breninesau cacwn o wledydd ar wahân i Seland Newydd:

Ddod o diriogaeth lle mae AFB, Chwilen fach y cwch a'r Gwiddonyn tropilaelaps yn hysbysadwy drwy'r holl diriogaeth;

Ddod o wenynfa fridio sy'n cael ei goruchwylio a'i rheoli gan yr awdurdod cymwys;

Ddod o ardal nad yw'n destun unrhyw gyfyngiadau sy'n gysylltiedig ag achos o AFB a lle nad oes unrhyw achos o'r fath wedi'i ganfod o fewn o leiaf 30 diwrnod cyn cyhoeddi'r dystysgrif bresennol. Pan fo achosion wedi digwydd o'r blaen, rhaid i bob cwch gwenyn o fewn radiws o 3 cilometr fod wedi'i wirio gan yr awdurdod cymwys a rhaid i'r holl gychod gwenyn heintiedig gael eu llosgi neu eu trin er boddhad yr awdurdod cymwys o fewn 30 diwrnod i'r achos diwethaf a gofnodwyd;

Ddod o gychod gwenyn (neu nythfeydd yn achos cacwn) y mae samplau o'r diliau wedi'u profi a'u cael yn negyddol yn y 30 diwrnod diwethaf ar gyfer AFB fel a bennwyd yn yr OIE Manual of Diagnostic Tests and Vaccines for Terrestrial Animals;

Ddod o ardal â radiws o 100 cilometr o leiaf nad yw'n destun unrhyw gyfyngiadau sy'n gysylltiedig ag achos o Chwilen fach y cwch neu'r Gwiddonyn tropilaelaps a lle mae'r plâu hyn yn absennol;

Wedi cael archwiliadau manwl i sicrhau nad oes unrhyw wenyn na phecynnau'n cynnwys Chwilen fach y cwch neu eu hwyau neu eu larfâu, neu blâu eraill, yn enwedig y Gwiddonyn tropilaelaps sy'n effeithio ar wenyn;

Ddod o gychod gwenyn (neu nythfeydd yn achos cacwn) a archwiliwyd yn union cyn eu hanfon ac nad ydynt yn dangos unrhyw arwyddion clinigol nac amheuon o glefydau, gan gynnwys plâu sy'n effeithio ar wenyn;

Mae'r deunydd pecynnu, cewyll breninesau a chynhyrchion a bwyd sy'n dod gyda nhw yn newydd ac nad ydynt wedi bod mewn cysylltiad â gwenyn neu ddiliau heintiedig ac mae rhagofalon wedi'u cymryd i atal halogi gan asiantau sy'n achosi clefydau neu blâu gwenyn.

Rhaid i gacwn:

Fod wedi'u bridio a'u cadw o dan amgylchedd rheoledig mewn sefydliad cydnabyddedig sy'n cael ei oruchwylio a'i reoli gan yr awdurdod cymwys;

Ddod o sefydliad y cyfeirir ato uchod a arolygwyd yn syth cyn eu hanfon, gyda'r holl gacwn a stoc bridio'n dangos dim arwyddion clinigol neu amheuaeth o glefydau, gan gynnwys plâu sy'n effeithio ar wenyn;

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, WG47393, ISBN digidol 978-1-83504-317-2

Wedi cael archwiliadau manwl i sicrhau nad yw'r holl gacwn, stoc bridio na'r pecynnau’n cynnwys Chwilen fach y cwch neu eu hwyau neu eu larfâu, neu blâu eraill, yn enwedig y Gwiddonyn tropilaelaps, sy'n effeithio ar wenyn;

Teithio gyda deunydd pecynnu, cynwysyddion, cynhyrchion a bwyd sy'n newydd ac nad ydynt wedi bod mewn cysylltiad â gwenyn neu ddiliau heintiedig, ac mae rhagofalon wedi'u cymryd i atal halogi gan asiantau sy'n achosi clefydau neu blâu gwenyn.

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, WG47393, ISBN digidol 978-1-83504-317-2

## Atodiad 3

Rhaid i wenyn mêl a chacwn o Seland Newydd:

Ddod o wenynfa fridio sy'n cael ei goruchwylio a'i rheoli gan yr awdurdod cymwys;

Yn achos gwenyn mêl, mae cychod gwenyn yn dod o ardal nad yw'n destun unrhyw gyfyngiadau sy'n gysylltiedig ag achos o AFB, a lle nad oes unrhyw achos o'r fath wedi'i ganfod o fewn o leiaf 30 diwrnod cyn cyhoeddi'r dystysgrif bresennol. Pan fo achosion o AFB wedi digwydd o'r blaen, rhaid i bob cwch gwenyn o fewn radiws o 3 cilometr fod wedi'i wirio gan yr awdurdod cymwys a rhaid i'r holl gychod gwenyn heintiedig gael eu llosgi neu eu trin a'u harolygu er boddhad yr awdurdod cymwys o fewn 30 diwrnod i'r achos diwethaf a gofnodwyd;

Ddod o gychod gwenyn neu nythfeydd (yn achos cacwn) a archwiliwyd yn union cyn eu hanfon (o fewn 24 awr fel arfer) ac nad ydynt yn dangos unrhyw arwyddion clinigol nac amheuaeth o glefydau, gan gynnwys plâu sy'n effeithio ar wenyn;

Teithio gyda deunydd pecynnu, cewyll breninesau, cynhyrchion a bwyd sy'n newydd ac nad ydynt wedi bod mewn cysylltiad â gwenyn neu ddiliau heintiedig, ac mae rhagofalon wedi'u cymryd i atal halogi gan asiantau sy'n achosi clefydau neu blâu gwenyn.

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, WG47393, ISBN digidol 978-1-83504-317-2